Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

# Briff ar gyfer etholiadau lleol 2022

**Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru**

**SAWL MUDIAD SYDD YN Y SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU?**

**6,000+**
**O ELUSENNAU COFRESTREDIG**

**44,000**
**O FUDIADAU SECTOR GWIRFODDOL**

**53% O'R ELUSENNAU YNG NGHYMRU YN FICROELUSENNAU**
(Llai na £10,000 o incwm)

**32% O'R ELUSENNAU YNG NGHYMRU YN ELUSENNAU BACH**
(Llai na £100,000 o incwm)

**CYFANSWM YR INCWM YW**
**£1.2 BILIWN**

**BETH YW EFFAITH GWIRFODDOLI YNG NGHYMRU?**

**28% O BOBL YNG NGHYMRU YN GWIRFODDOLI BOB BLWYDDYN**

**GWERTH A AMCANGYFRIFIR**
**£1.7 BILIWN**

**938,000 O WIRFODDOLWYR YN CYFRANNU**
**145 MILIWN O ORIAU**

Ffynhonnell: Porth Data CGGC

**Ynglŷn â Chefnogi Trydydd Sector Cymru**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer holl drydydd sector Cymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW). Mae'n cynnwys y 19 o gyrff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau'r trydydd sector i nodi a mynd i'r afael â'r pethau sydd o bwys iddynt. Mae ein cynnig cyffredinol yn cynnwys pedwar piler gweithgarwch: gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy ac ymgysylltu a dylanwadu.

**Pwysigrwydd sector gwirfoddol lleol sy'n ffynnu**

Drwy gydol pandemig y coronafeirws, profwyd fod elusennau a grwpiau cymunedol lleol yn hanfodol. Gwnaethant gynorthwyo cymunedau drwy gludo bwyd a phresgripsiynau, rhoi cyngor i bobl a oedd yn gwarchod, dechrau gwasanaethau cyfeillio, trefnu gwirfoddolwyr a chynnig cymorth iechyd meddwl a llesiant.

Mae'r dystiolaeth yn eglur – pan fydd y sylfeini'n gryf, gall gweithgarwch lleol yn y sector gwirfoddol ffynnu. Er enghraifft, canfu astudiaeth ar iechyd meddwl gan Mind yn ystod y pandemig fod "hybiau cymunedol a'r rhwydwaith sector gwirfoddol" wedi chwarae rhan bwysig mewn cefnogi iechyd meddwl.

Mae llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol wedi wynebu mwy o alw a llai o incwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y bobl y maen nhw'n eu cynorthwyo, yn ogystal ag ar eu gallu i gydweithio â gwasanaethau cynghorau.

Yn 2022, bydd Cymru yn ethol cynghorwyr newydd. Mae'r etholiad hwn yn gyfle gwych i gryfhau sylfeini'r sector gwirfoddol lleol.



*The Arches, Rhaeadr Gwy*

**Cydweithio ac Ymgysylltu**

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn well pan fydd dinasyddion a chymunedau yn rhan o'r gwaith o'u cynllunio a'u cyflenwi. O ganlyniad i hyn, mae'r sector gwirfoddol a'r llywodraethau wedi cydweithio i sicrhau bod y sgyrsiau hyn yn digwydd yn gyson ac yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys llunio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a hybu'r ffyrdd cydweithredol o weithio sydd wedi'u hymwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod hyn wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio mewn rhai ardaloedd, nid yw wedi'i gyflwyno drwyddi draw, ac rydym yn parhau i geisio newid y diwylliant ymgysylltu ymhlith rhai cyrff cyhoeddus. Rydym yn poeni fwyfwy y bydd y symudiad i gyrff rhanbarthol yn gwneud yr heriau hyn yn anoddach fyth.

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob rhan o'u gwaith yn cael ei llywio a'i datblygu gan y dinasyddion a'r cymunedau a fydd yn cael eu heffeithio. Mae CVCs mewn sefyllfa dda i hwyluso'r gwaith hwn, oherwydd mae ganddynt eisoes gysylltiadau â chymunedau ledled eu hardaloedd. Dylai awdurdodau lleol hefyd wthio'r cyrff rhanbarthol y maen nhw'n rhan ohonynt i ymgysylltu'n well.

**Gwirfoddoli**

Drwy gydol y pandemig, gwelsom ba mor werthfawr oedd gwirfoddoli i gymunedau; bu gweithgareddau gwirfoddol yn achubiaeth i lawer. Dengys adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd fod gwirfoddoli o fudd i lesiant gwirfoddolwyr hefyd. Mae TSSW yn rhoi cymorth lleol i weithgareddau gwirfoddoli ledled Cymru ac yn arwain gwaith cenedlaethol i gynyddu gwirfoddoli. Mae'r gwaith hwn yn helpu i baru gwirfoddolwyr â chyfleoedd. Yn ystod y pandemig, gwnaethom weithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddod o hyd i wirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac o fewn y GIG. Ar ôl yr etholiad, dylai awdurdodau lleol weithio gyda'u CVC lleol i gynyddu'r cwmpas ar gyfer darparu cyfleoedd gwirfoddoli.

Dylai awdurdodau lleol weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i hyrwyddo CVCs fel y lle gorau i ddarparu'r gweithgareddau gwirfoddoli hyn, gyda chydweithrediad ymhlith gwasanaethau cyhoeddus mewn ardal leol.

**Mannau cymunedol**

Pan wnaeth y pandemig orfodi llawer o ganolfannau cymunedol a hybiau lleol i gau, teimlai llawer o bobl eu bod wedi'u rhwygo o'u cymunedau. Fodd bynnag, nid un digwyddiad oedd hyn - rydym wedi bod yn colli mannau cymunedol ledled Cymru ers blynyddoedd oherwydd pwysau cyllid lleol a newid mewn tueddiadau economaidd. Mewn rhai rhannau o Gymru, nid oes digon o fannau i gynnal gweithgareddau cymunedol. Gall awdurdodau lleol helpu i ddarparu'r mannau hyn drwy'r broses trosglwyddo asedau cymunedol. Ond, rydym wedi canfod mewn rhai rhannau o Gymru fod y broses hon naill ai'n ddiffygiol neu'n cael ei hystyried fel ffordd o leihau

costau. Mae’n bosibl y bydd hefyd angen cymorth ar gymunedau i’w helpu i gymryd perchnogaeth o asedau sydd mewn perygl o gael eu colli yn y preifat sector ar hyn o bryd.

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu proses o drosglwyddo asedau cymunedau yn llyfn, agored ac yn deg i ddarpar dderbynyddion. Dylent hefyd ystyried y ffordd orau o gefnogi asedau eraill yn eu cymunedau.

**Cyllid cynaliadwy**

Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer mudiadau’r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae’r cyllid hwn wedi lleihau’n sylweddol gan fod awdurdodau lleol wedi wynebu pwysau cyllidebol. Gwnaeth llawer o fudiadau’r sector gwirfoddol hefyd weld gostyngiad sylweddol mewn incwm yn ystod y pandemig, gan nad oedd cyfleoedd codi arian ar gael.

Dylai awdurdodau lleol ailystyried gwerth buddsoddi mewn mudiadau’r sector gwirfoddol, yn sgil yr effaith sylweddol y gall y buddsoddiad hwn ei chael ar wella llesiant pobl, ac ar atal costau yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu awdurdodau lleol i wireddu uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Yn olaf, dylai awdurdodau lleol hefyd gynnig setliadau cyllido amlflwyddyn i fudiadau’r sector gwirfoddol.

**Cyngor a chymorth**

Mae angen i bob mudiad yn y sector gwirfoddol fod yn hyblyg yn ystod yr adegau heriol hyn, a bydd angen i hyd yn oed y rheini sydd wedi paratoi’n dda addasu er mwyn bod yn barod i’r rhai blynyddoedd i ddod. Er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld pa mor bwysig yw hi i elusennau ddatblygu eu sgiliau o ran darparu gwasanaethau digidol, ac i gynorthwyo holl gymunedau amrywiol Cymru. Ni fyddai’r un awdurdod lleol mewn sefyllfa i gynnig y cyngor arbenigol hwn i bob elusen a grŵp cymunedol yn ei ardal, a dyma pam y caiff TSSW ei gyllido i wneud hynny.

Dylai pob awdurdod lleol weithio gyda’i CVC lleol i sicrhau bod ganddo’r adnoddau a’r cymorth i ddarparu’r cyngor hwn, ac i gynorthwyo awdurdodau lleol pan maen nhw eisiau ymgysylltu â gwirfoddoli a gweithgareddau gwirfoddol.

Lluniwyd y briff hwn gan Gefnogi Trydydd Sector Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â’ch CVC lleol neu anfonwch e-bost at policy@wcva.cymru.